



# CYFOETH Y COED

ADENNILL FFRWYTHAU DROS BEN ABERTAW

Teitl Rôl Gwirfoddolwr: **Arweinydd Cynhaeafu**

## **Diben**

Ni all Cyfoeth y Coed drefnu digwyddiadau pigo ffrwythau heb Arweinydd Cynhaeafu yn bresennol i oruchwylio'r bobl sy'n pigo'n wirfoddol a chadw'r safle'n ddiogel i bawb. Os ydych chi'n gwirfoddoli ar gyfer y rôl hon, byddwch chi'n gwneud cyfraniad mawr at ddarparu bwyd blasus a maethlon i bobl yn Abertawe na fyddai'n gallu ei fforddio fel arall.

## **Gweithgareddau a awgrymir**

Yn y rôl hon, byddwch yn goruchwylio'r cynhaeaf, gan greu amgylchedd diogel a chroesawgar i'r gwirfoddolwyr sydd wedi dod i bigo ffrwythau.

Byddwn yn gofyn i chi gyflwyno sesiwn hyfforddi fer ar ddefnyddio ysgolion, gweithio gyda pholion pigo, codi a diogelwch ar y safle. Byddwn yn rhoi hyfforddiant i chi o flaen llaw ar bob un o'r rhain ac yn darparu deunyddiau adolygu, ar gyfer yr adegau hynny pan fyddwch chi eisiau adnewyddu eich gwybodaeth.

Nid ydym ni am i chi gael eich estyn gormod a gorfod goruchwylio gormod o bobl, felly byddwn yn cadw'r gymhareb i un arweinydd i bedwar o bobl yn pigo ar y mwyaf. Y tebyg yw y byddwch chi'n pigo hefyd ond byddwn yn gofyn i chi sicrhau mai eich prif flaenoriaeth yw diogelwch y safle a bod ar gael i ateb cwestiynau gwirfoddolwyr eraill.

Wrth i'r ffrwyth gael ei bigo, caiff ei bacio i flychau neu gretiau. Byddwn yn darparu mantol, yn gofyn i chi sicrhau na fydd y blychau hyn yn pwysu mwy na 12kg ac yn cofnodi cyfanswm pwysau'r ffrwyth sy'n cael ei gynhaeafu. Pe bai modd i chi gofnodi presenoldeb, byddai hynny'n ddefnyddiol iawn hefyd.

Bydd gyrrwr gwirfoddoli yn casglu'r ffrwyth ac yn ei gludo i'r pwynt casglu i'w ddsbarthu. Byddwn yn gofyn i chi fod yn gyfrifol am lwytho'r blychau i gerbyd y gyrrwr ac am gynnal sesiwn adrodd yn ôl gyda'r bobl sy'n pigo felly gallwch chi roi gwybod i ni am unrhyw broblemau neu ffyrdd o wella'r broses.

## **Amserlen**

Byddwn yn amserlennu'r gwaith casglu ffrwythau ar ddiwrnodau gwahanol yn ystod yr wythnos a thros y penwythnos yn ystod y cyfnod cynhaeafu rhwng mis Awst a mis Hydref. Cynhelir y digwyddiadau hyn rhwng 10:00 am a 6:00 pm.

## **Safle**

Byddwn yn casglu ffrwythau mewn amrywiaeth o leoliadau awyr agored, gan gynnwys parciau, gerddi a thir comin. Mae'r rhan fwyaf o'n safleoedd o fewn radiws 8 cilomedr o ganol dinas Abertawe.

## **Goruchwyliaeth**

Un i un gyda rheolwr y prosiect drwy apwyntiad. Gallwch siarad â chydlynnydd dros y ffôn neu drwy e-bost.

## **Rhinweddau**

Brwdfrydig, cydweithiol, amyneddgar, parodrwydd i wrando, gallu defnyddio polyn pigo 3.5m o hyd (ar ôl hyfforddiant) os ydych chi'n pigo afalau a gellyg (mae rhannau i'r polion felly gellir eu gwneud yn fyrrach ond os ydynt yn rhy fyr, ni fyddant yn gallu cyrraedd y ffrwythau), cydnabyddiaeth o bwysigrwydd diogelwch ar y safle a'r gallu i ddarparu hyfforddiant ar y safle i'r tîm.

**Buddion:**

- Hyfforddiant sefydlu llawn, gan gynnwys hanfodion goruchwyllo,
- defnyddio polion ac ysgolion pigo yn ddiogel a hyfforddiant ymdrin â llaw er mwyn codi blychau'n ddiogel (nid yw defnyddio ysgolion yn orfodol).
- Ad-delir eich costau teithio os ydych chi'n defnyddio cludiant cyhoeddus.
- Darperir cyfarpar diogelwch (hetiau caled).
- Hwyl! Cymryd rhan mewn gweithgaredd awyr agored gyda phobl o'r un meddylfryd.
- Ffrwyth! Dewch â bag plastig neu gynhwysydd arall gyda chi er mwyn mynd â ffrwyth adref gyda chi.
- Ymdeimlad o gyflawni rhywbeth: pan fyddwn wedi gorffen pigo'r ffrwythau, byddwn yn eu pwysu er mwyn i chi gael gwybod yn union yr hyn wnaethoch chi ei bigo.
- Profiad o oruchwyllo eraill.
- Profiad o gyfrannu at ffynhonnell bwyd newydd a charbon isel yn Abertawe.